




GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

# Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYHOEDDIAD 24: wythnos 05/07/2021

## Cynnydd Wythnosol (28 Mehefin - 5 Gorffennaf)



Rydym bellach wedi brechu 87% o boblogaeth y Bwrdd Iechyd gyda dosau cyntaf i bawb 18 oed a hŷn.

Rydym hefyd yn gwneud cynnydd da gyda'r ail ddosau gyda 89% o bobl dros 40 wedi'u brechu'n llawn.

### FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 05/07/2021)

Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)

# 764,860

Cyfanswm y dos cyntaf 431,623

Cyfanswm yr ail ddos 333,237

## Brechiadau Atgyfnerthu


Yn dilyn cyhoeddiad yr wythnos ddiwethaf gan y Cydbwyllgor Brechu ac Imiwneiddio ynghylch cam nesaf y Rhaglen Brechu Torfol, hoffem sicrhau ein trigolion y bydd pawb sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y brechiad atgyfnerthu yn cael cynnig apwyntiad o fewn yr amserlenni priodol. O ddechrau'r rhaglen, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'n partneriaid meddygon teulu wedi dilyn canllawiau'r Cydbwyllgor Brechu ac Imiwneiddio sy'n brechu ein trigolion mewn grŵp blaenoriaeth er mwyn sicrhau bod y rhai sydd mewn mwy o berygl yn cael eu hamddiffyn yn gyntaf. Byddwn yn parhau i ddilyn strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein trigolion yn cael cynnig amddiffyniad cyn gynted ac mor ddiogel â phosibl.

Gofynnwn i chi beidio â chysylltu â ni i ofyn am apwyntiad ar gyfer eich brechiad atgyfnerthu.

Os nad ydych wedi derbyn eich dos cyntaf o frechiad, neu os gwnaethoch dderbyn eich dos cyntaf cyn 30 Ebrill a heb dderbyn gwahoddiad eto ar gyfer eich ail frechiad, cysylltwch â'n canolfan archebu ar **0300 303 1373** drefnu eich apwyntiad.

Am ragor o wybodaeth ewch i: [https://gov.wales/written-statement-covid-19-vaccination-jcvi-announcement-phase-3?utm\\_source=rss-announcements&utm\\_medium=rss-feed&utm\\_campaign=announcements-Written+Statement%3A+COVID-19+Vaccination+%E2%80%93+JCVI+announcement+on+Phase+3](https://gov.wales/written-statement-covid-19-vaccination-jcvi-announcement-phase-3?utm_source=rss-announcements&utm_medium=rss-feed&utm_campaign=announcements-Written+Statement%3A+COVID-19+Vaccination+%E2%80%93+JCVI+announcement+on+Phase+3)

### Pobl 65 oed a'n hŷn



### Grŵp 6 (Agored i Niwed)



### Pobl 60-64 mlwydd oed



### Pobl 55-59 mlwydd oed



### Pobl 50-54 mlwydd oed



### Pobl 40-49 mlwydd oed



### Pobl 30-39 mlwydd oed



### Pobl 18-29 mlwydd oed



## Tystysgrifau Brechiad

Byddwch yn ymwybodol na all y Bwrdd Iechyd na'ch meddyg teulu roi tystysgrif brechiad i chi, mae'n rhaid gofyn am hyn gan Lywodraeth Cymru.

Gwiriwch ofynion mynediad fel profion COVID-19 ac ynysu ar gyfer gwledydd rydych chi'n bwriadu ymweld â nhw (GOV.UK).

Bydd angen i chi ddilyn rheolau eraill wrth deithio o hyd, fel profion cyn gadael.

Mae Pas COVID y GIG yn eich galluogi i ddangos i eraill eich bod wedi derbyn brechiad COVID-19 wrth deithio dramor.

Gallwch gael Pas COVID y GIG digidol os:

- cawsoch eich brechu yng Nghymru
- ydych yn 16 oed neu'n hŷn

Argymhellir eich bod yn cael y Pas COVID digidol yn hytrach na'r fersiwn bapur. Byddwch yn gallu dangos hwn ar eich ffôn, tabled neu liniadur.

Ar hyn o bryd, ni all pobl yng Nghymru ddefnyddio Ap y GIG i gael mynediad i'w Pas COVID y GIG a statws brechiad.

Gallwch gael eich statws brechu ar bapur os:

- oes pythefnos wedi mynd heibio ers i chi gwblhau cwrs llawn o frechiad COVID-19

Am ragor o wybodaeth, ac i wneud cais am Bas COVID y GIG, ewch i: <https://gov.wales/get-nhs-covid-pass-show-your-vaccination-status-travel>



## Rhannwch eich stori, nid y feirws

Rhannwch eich bod wedi cael eich brechlyn Covid ar eich Instagram stories! Byddwn ni'n ail-rannu'r stori ar ein sianel ni a bydd y llun gorau'n cael taleb Amazon gwerth £50.

Tagio ni @aneurinbevanuhb  
Hashnod #ABUHBvaccine

\*\*Disgwylwch nes ar ôl i chi adael y ganolfan frechu i dynnu lluniau!

## Cyrhaeddwch yn brydlon

ar gyfer eich apwyntiad brechiad Covid-19



**Ymunwch â'r miloedd sydd wedi cael eu brechu...  
Ffoniwch 0300 303 1373 a byddwch yn cael  
cynnig apwyntiad dos cyntaf o fewn 72 awr.**

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: <https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020>

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: <https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: <https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/>

## Os ydych wedi cael eich brechiad

Mae'n cymryd amser i'ch corff feithrin amddiffyniad ar ôl unrhyw frechiad. Mae'n bwysig eich bod yn parhau i ddilyn yr holl ganllawiau diogelwch er mwyn helpu i ddiogelu eich hunan. Dylech barhau gyda dwylo, wyneb, gofod.